



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

RHAGFARNAU MEWN TECHNOLEGAU DIGIDOL:

Hunaniaeth o ran rhywedd mewn data amgueddfeydd

Maria Victoria Guzmán, Athro, Ymchwilydd, Observatorio Políticas Culturales

Ers i amgueddfeydd gael eu sefydlu, maent wedi chware rôl o ran diffinio, llunio ac unioni ein hunaniaeth genedlaethol ar y cyd. Nid cyd-ddigwyddiad yw hi fod yr amgueddfeydd cyntaf wedi cael eu sefydlu wrth i genedl-wladwriaethau gael eu ffurfio. Mae nifer wedi astudio eu pwerau normadol a ffurfiannol, yn arbennig y ffordd mae eu casgliadau'n llunio'r syniad o'r "llall" o ran hil, dosbarth a rhywedd; a sut mae cyfres o normau penodol ac ymhlyg yn ffurfio profiad o'r amgueddfa, sydd unwaith eto i fod i roi syniad o bwy sy'n perthyn yn yr amgueddfa - a phwy sydd ddim. Gan gofio hynny, byddaf yn dadansoddi'r anawsterau o gynnwys hunaniaeth LGBTQIA+ yn y systemau data swyddogol, sy'n llunio'r syniadau ar y cyd o bwy gaiff a phwy na chaiff ei gydnabod yn swyddogol fel artist.

Drwy ddefnyddio fy mhrofiad fel ymchwilydd sy'n defnyddio SURDOC, sef cronfa ddata sy'n cynnwys casgliadau o rai o amgueddfeydd pwysicaf Chile, ac fel aelod o dîm sy'n gyfrifol am ddylunio methodoleg newydd ar gyfer ystadegau amgueddfeydd, byddaf yn tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag agor systemau i gynnwys ffyrdd mwy amrywiol o fodoli yn y byd. Mae dealltwriaeth fodern o rywedd, sy'n ei rannu ac yn ei ddsbarthu'n ddau gategori caniatol yn parhau i amddifadu'r lleiafrif rhag cael eu cydnabod. Mae'r bobl hynny nad ydynt yn ystyried eu hunain yn wryw nac yn fenyw, yn ogystal â'r lleiafrifoedd o ran eu rhywedd, wedi bod yn cael eu dileu'n gyson oddi ar ddata digidol, gan beri iddynt gael eu cydnabod naill ai fel dynion neu fenywod.

Mae'r ffordd y mae cronfeydd data a systemau digidol yn cael eu codio felly yn arwain at barhau gyda'r patrymau o drais a phŵer yng nghyswllt hunaniaeth LGBTQIA+, ac mae'n hollbwysig ein bod ni'n ystyried rhagfarnau o'r fath sydd wedi ennill eu plwyf, er mwyn creu technolegau digidol sy'n fwy amrywiol a chynhwysol.

Bywgraffiad

María Victoria Guzmán. Ymchwilydd sy'n arbenigo mewn cof, hunaniaeth a chynrychiolaeth ddiwylliannol. Mae hi'n gyfreithwraig sydd wedi astudio cwrs ôl-radd mewn Athroniaeth ac Estheteg, ac MA mewn Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol yn King's College, Llundain, y Deyrnas Unedig, lle cafodd wobwr am y traethawd ymchwil gorau yn ei chenhedlaeth. Ar hyn o bryd mae hi wedi ymrwymo i waith ymchwil, beirniadaeth ddiwylliannol ac addysgu ar bwnc amgueddfeydd a chelf gyfoes. María wnaeth sefydlu'r blog El Gocerío, sy'n ymwneud yn arbennig â beirniadu celf yn Santiago, ac mae hi wedi gweithio fel curadur ac ymchwilydd artistig ar gyfer y Bienal de Artes Mediales yn Santiago.